OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1324 (Cy.137)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *16 Mai 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *20 Mai 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *13 Mehefin 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

## RHAN 1

CYFFREDINOL

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 13 Mehefin 2008.

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**3.** Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2008" ("*the 2008 Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008(**3**).

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adran 42. Diwygiwyd adran 42 ac adran 43 gan Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 12.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149)(C.79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159)(C.56)). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2008/18 (Cy. 7).

**Diwygio Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008**

**4.** Diwygir Rheoliadau 2008 fel a ganlyn.

**5.** Yn rheoliad 18(3), yn lle'r ffigur “25,580”, rhodder y ffigur “27,115”.

**6.** Yn lle paragraffau 8(1)(b) ac 8(1)(c) o Atodlen 2 rhodder—

“(b) a oedd yn preswylio fel arfer yng Nghymru ac wedi ymsefydlu yn y Deyrnas Unedig yn union cyn gadael y Deyrnas Unedig i arfer hawl i breswylio;

(c) sydd yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y dyddiad perthnasol;”.

**7.** Ym mharagraff 4(2)(a) o Atodlen 3 hepgorer y geiriau “a delir gan y myfyriwr” ac “y myfyriwr”.

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

16 Mai 2008

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008 ("Rheoliadau 2008").

Mae Rheoliad 5 yn diwygio rheoliad 18 o Reoliadau 2008 er mwyn cynyddu'r grantiau ar gyfer ffioedd sy'n daladwy i fyfyrwyr sy'n mynychu Canolfan Bologna o 25,580 ewro i 27,115 ewro.

Mae Rheoliad 6 yn diwygio paragraffau 8(1)(b) ac 8(1)(c) o Atodlen 2 o Reoliadau 2008 er mwyn galluogi myfyrwyr sydd wedi ymsefydlu yn y DU ac sy'n arfer hawl i breswylio yn yr UE ac yna'n dychwelyd i'r DU i astudio i fod yn gymwys i gael y cymorth ariannol i fyfyrwyr yn llawn o dan y Rheoliadau hyn.

Mae Rheoliad 7 yn diwygio paragraff 4 o Atodlen 3 o Reoliadau 2008 o ran cyfrifo incwm gweddilliol rhiant myfyriwr.